OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2017 Rhif 713 (Cy. 170)

# 2017 No. 713 (W. 170)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# SOCIAL CARE, WALES

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

# CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

## Rheoliadau Cynllunio Gofal ac Adolygu Achosion (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2017

## The Care Planning and Case Review (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2017

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i dair set o Reoliadau sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cynllunio ac adolygu'r ddarpariaeth o ofal a chymorth ar gyfer personau o dan Ddeddf Plant 1989 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014").

Mae'r diwygiadau yn gwneud darpariaeth ynghylch y ffordd y mae rhaid i awdurdodau lleol ac awdurdodau cyfrifol eraill adolygu achosion personau sy'n rhan o deulu sy'n cael cymorth gan dîm integredig cymorth i deuluoedd.

Mae adrannau 166 i 169 o Ddeddf 2014 yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau partneriaeth rhwng pob bwrdd iechyd lleol a'r awdurdodau lleol sy'n dod o fewn ôl troed daearyddol pob bwrdd iechyd i sefydlu corff partneriaeth i gymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol penodedig. Mae timau integredig cymorth i deuluoedd wedi eu sefydlu fel rhan o'r trefniadau hynny i ddarparu cymorth i deuluoedd sy'n cael eu hatgyfeirio atynt, yn unol â rheoliadau 16 a 17 o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, (a wneir o dan adrannau 166 i 168 o Ddeddf 2014).

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations make amendments to three sets of Regulations which make provision about the planning and review of the provision of care and support for persons under the Children Act 1989 and the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 ("the 2014 Act").

The amendments make provision about the way that local authorities and other responsible authorities must review the cases of persons who are part of a family which is receiving support from an integrated family support team ("IFS team").

Sections 166 to 169 of the 2014 Act make provision for partnership arrangements between each local health board and the local authorities that fall within the geographic footprint of each health board to establish a partnership body to participate in arrangements for the carrying out of specified health and social services functions. IFS teams are established as part of those arrangements to provide support to families who are referred to them, in accordance with regulations 16 and 17 of the Partnership Arrangements (Wales) Regulations 2015, (which are made under sections 166 to 168 of the 2014 Act).

Mae rheoliad 2 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007 ac yn mewnosod Atodlen newydd, sef Atodlen 5 yn y Rheoliadau hynny i wneud darpariaeth ynghylch yr ystyriaethau ychwanegol y mae rhaid i awdurdodau cyfrifol o dan y Rheoliadau hynny roi sylw iddynt wrth adolygu achos plentyn y mae ei deulu yn cael cymorth gan dîm integredig cymorth i deuluoedd.

Regulation 2 makes amendments to the Review of Children's Cases (Wales) Regulations 2007 and inserts a new Schedule 5 into those Regulations to make provision about the additional considerations that responsible authorities under those Regulations must have regard when reviewing the case of a child whose family is receiving support from an IFS team.

Mae rheoliad 3 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015 ac yn mewnosod Atodlen i wneud darpariaeth ynghylch yr ystyriaethau y mae rhaid i awdurdod lleol roi sylw iddynt wrth adolygu cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth person pan fo'r person yn rhan o deulu sy'n cael cymorth gan dîm integredig cymorth i deuluoedd.

Regulation 3 makes amendments to the Care and Support (Care Planning) (Wales) Regulations 2015 and inserts a Schedule to make provision about the considerations that a local authority must have regard when reviewing a person's care and support plan or support plan when the person is part of a family which is receiving support from an IFS team.

Mae rheoliad 4 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015") ac yn mewnosod darpariaeth newydd o fewn Atodlen 8 i Reoliadau 2015 (ystyriaethau y mae'n rhaid i'r awdurdod cyfrifol roi sylw iddynt wrth adolygu achos C) er mwyn ychwanegu ystyriaethau ychwanegol y mae rhaid i awdurdod roi sylw iddynt wrth adolygu achos plentyn y mae ei deulu yn cael cymorth gan dîm integredig cymorth i deuluoedd.

Regulation 4 makes amendments to the Care Planning, Placement and Case Review (Wales) Regulations 2015 ("the 2015 Regulations") and inserts new provision within Schedule 8 to the 2015 Regulations (considerations to which the responsible authority must have regard when reviewing C's case) to add additional considerations to which an authority must have regard when reviewing the case of a child whose family is receiving support from an IFS team.

Mae rheoliad 4(4) hefyd yn cywiro gwall yn rheoliad 57 o Reoliadau 2015.

Regulation 4(4) also corrects an error in regulation 57 of the 2015 Regulations.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

# 2017 Rhif 713 (Cy. 170)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio Gofal ac Adolygu Achosion (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *26 Mehefin 2017* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *30 Mehefin 2017* |
| *Yn dod i rym* | *23 Gorffennaf 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan y darpariaethau yn Atodlen 1, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gofal ac Adolygu Achosion (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2017.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Gorffennaf 2017.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Adolygu Achosion Plant (Cymru) 2007(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(**1**) O.S. 2007/307 (Cy. 26) ("Rheoliadau 2007"). Yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2010/1700 (Cy. 161), rheoliad 9(3) ac O.S. 2016/216 (Cy. 85), rheoliad 7(6). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.



# 2017 No. 713 (W. 170)

# SOCIAL CARE, WALES

# CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

## The Care Planning and Case Review (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2017

| | |
|---|---|
| *Made* | *26 June 2017* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *30 July 2017* |
| *Coming into force* | *23 July 2017* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by the provisions in Schedule 1, make the following Regulations:

**Title, commencement and application**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Care Planning and Case Review (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2017.

(2) These Regulations come into force on 23 July 2017.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

**Amendment of the Review of Children's Cases (Wales) Regulations 2007**

**2.**—(1) The Review of Children's Cases (Wales) Regulations 2007(**1**) are amended as follows.

(**1**) S.I. 2007/307 (W. 26) ("the 2007 Regulations"). Relevant amending instruments are S.I. 2010/1700 (W. 161), regulation 9(3) and S.I. 2016/216 (W. 85), regulation 7(6). There are other amending instruments but none are relevant.

(2) Yn rheoliad 1(2) (enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso), yn y lle priodol mewnosoder y canlynol—

"mae i "corff partneriaeth" ("*partnership body*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 1(4) o'r Rheoliadau Partneriaeth;

ystyr "y Rheoliadau Partneriaeth" ("*the Partnership Regulations*") yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015(**1**);

mae i "rhiant" ("*parent*"), mewn perthynas â phlentyn sy'n rhan o deulu sy'n cael cymorth gan dîm integredig cymorth i deuluoedd, yr ystyr a roddir yn rheoliad 18(5) o'r Rheoliadau Partneriaeth;

mae i "teulu" ("*family*"), mewn perthynas â phlentyn sy'n rhan o deulu sy'n cael cymorth gan dîm integredig cymorth i deuluoedd, yr ystyr a roddir yn rheoliad 18(3) o'r Rheoliadau Partneriaeth;

ystyr "tîm integredig cymorth i deuluoedd" ("*IFS team*") yw tîm integredig cymorth i deuluoedd sydd wedi ei sefydlu gan gorff partneriaeth yn unol â'r Rheoliadau Partneriaeth(**2**);".

(3) Yn rheoliad 4 (amser pan fo'n rhaid adolygu pob achos), ym mharagraff (3) hepgorer y geiriau "swyddog adolygu annibynnol yn cyfarwyddo hynny" a mewnosoder yr is-baragraffau a ganlyn—

"(a) swyddog adolygu annibynnol yn cyfarwyddo hynny, neu

(b) plentyn yn rhan o deulu y mae ei achos wedi ei gyfeirio at dîm integredig cymorth i deuluoedd a bod y teulu wedi ei hysbysu y bydd ei achos yn cael ei gefnogi gan y tîm hwnnw.".

(4) Yn rheoliad 6 (ystyriaethau y mae awdurdodau cyfrifol i roi sylw iddynt)—

(a) ailrifer y ddarpariaeth bresennol yn baragraff (1);

(b) ar ôl paragraff (1) (fel y'i hailrifir), mewnosoder y paragraff a ganlyn—

(2) In regulation 1(2) (title, commencement, interpretation and application), in the appropriate place insert the following—

""the Partnership Regulations" ("*y Rheoliadau Partneriaeth*") means the Partnership Arrangements (Wales) Regulations 2015(**1**);

"family" ("*teulu*"), in relation to a child who is part of a family which is receiving support from an IFS team, has the meaning given in regulation 18(3) of the Partnership Regulations;

"IFS team" ("*tîm integredig cymorth i deuluoedd*") means an integrated family support team established by a partnership body in accordance with the Partnership Regulations (**2**);

"parent" ("*rhiant*"), in relation to a child who is part of a family which is receiving support from an IFS team, has the meaning given in regulation 18(5) of the Partnership Regulations;

"partnership body" ("*corff partneriaeth*") has the meaning given in regulation 1(4) of the Partnership Regulations;".

(3) In regulation 4 (time when each case to be reviewed), in paragraph (3) omit the words "the independent reviewing officer so directs" and insert the following sub-paragraphs—

"(a) the independent reviewing officer so directs, or

(b) the child is part of a family whose case has been referred to an IFS team and the family has been notified that their case will be supported by that team.".

(4) In regulation 6 (considerations to which responsible authorities are to have regard)—

(a) renumber the existing provision as paragraph (1);

(b) after paragraph (1) (as renumbered), insert the following paragraph—

(**1**) O.S. 2015/1989 (Cy. 299). Diwygiwyd y Rheoliadau hyn gan O.S. 2017/491 (Cy. 103).

(**2**) *Gweler* rheoliad 16 o'r Rheoliadau Partneriaeth (sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd). Mae adrannau 166 i 169 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau partneriaeth rhwng pob bwrdd iechyd lleol a'r awdurdodau lleol o fewn ardal pob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru i sefydlu corff partneriaeth i gymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol penodedig mewn partneriaeth.

(**1**) S.I. 2015/1989 (W. 299). These Regulations were amended by S.I. 2017/491 (W. 103).

(**2**) *See* regulation 16 of the Partnership Regulations (establishment of integrated family support teams). Sections 166 to 169 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (anaw 4) make provision for partnership arrangements between each local health board and the local authorities within the area of each local health board in Wales to establish a partnership body to participate in arrangements for the carrying out of specified health and social services functions in partnership.

"(2) Mae'r ystyriaethau ychwanegol y mae'n rhaid i'r awdurdod cyfrifol roi sylw iddynt wrth adolygu achos plentyn pan fo'r plentyn yn rhan o deulu sy'n cael ei gefnogi gan dîm integredig cymorth i deuluoedd wedi eu nodi yn Atodlen 5.".

(5) Yn rheoliad 8 (ymgynghori, cymryd rhan a hysbysu)—

(a) ym mharagraff (1), yn union cyn is-baragraff (d), hepgorer y gair "a" a mewnosoder yr is-baragraff a ganlyn—

"(cha)yn achos plentyn y mae ei deulu yn cael ei gefnogi gan dîm integredig cymorth i deuluoedd, aelod o'r tîm hwnnw; a";

(b) ym mharagraff (3), yn union cyn is-baragraff (d), hepgorer y gair "a" a mewnosoder yr is-baragraff a ganlyn—

"(cha)yn achos plentyn y mae ei deulu yn cael ei gefnogi gan dîm integredig cymorth i deuluoedd, aelod o'r tîm hwnnw; a".

(6) Ar ôl Atodlen 3 (ystyriaethau iechyd y mae awdurdodau cyfrifol i roi sylw iddynt), mewnosoder fel Atodlen 5(**1**) yr Atodlen a nodir yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

**Diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cynllunio Gofal) (Cymru) 2015(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(3) (enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli), yn y lle priodol mewnosoder y canlynol—

"mae i "corff partneriaeth" ("*partnership body*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 1(4) o'r Rheoliadau Partneriaeth;

ystyr "y Rheoliadau Partneriaeth" ("*the Partnership Regulations*") yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015(**3**);

"(2) The additional considerations to which the responsible authority must have regard in reviewing the case of a child where the child is part of a family which is being supported by an IFS team are set out in Schedule 5.".

(5) In regulation 8 (consultation, participation and notification)—

(a) in paragraph (1), immediately before sub-paragraph (e), omit the word "and" and insert the following sub-paragraph—

"(da) in the case of a child whose family is being supported by an IFS team, a member of that team; and";

(b) in paragraph (3), immediately before sub-paragraph (e), omit the word "and" and insert the following sub-paragraph—

"(da) in the case of a child whose family is being supported by an IFS team, a member of that team; and".

(6) After Schedule 3 (health considerations to which responsible authorities are to have regard) insert as Schedule 5(**1**) the Schedule set out in Schedule 2 to these Regulations.

**Amendment of the Care and Support (Care Planning) (Wales) Regulations 2015**

**3.**—(1) The Care and Support (Care Planning) (Wales) Regulations 2015(**2**) are amended as follows.

(2) In regulation 1(3) (title, commencement, application and interpretation), in the appropriate place insert the following—

""the Partnership Regulations" ("*y Rheoliadau Partneriaeth*") means the Partnership Arrangements (Wales) Regulations 2015(**3**);

"family" ("*teulu*"), in relation to a person who is part of a family which is receiving support from an IFS team, has the meaning given in regulation 18(3) of the Partnership Regulations;

(**1**) Hepgorwyd Atodlen 4 i Reoliadau 2007 gan O.S. 2016/216 (Cy. 85), rheoliad 7(1) a (13).
(**2**) O.S. 2015/1335 (Cy. 126).
(**3**) O.S. 2015/1989 (Cy. 299). Diwygiwyd y Rheoliadau hyn gan O.S. 2017/491 (Cy. 103).

(**1**) Schedule 4 to the 2007 Regulations 2007 was omitted by S.I. 2016/216 (W.85), regulation 7(1) and (13).
(**2**) S.I. 2015/1335 (W. 126).
(**3**) S.I. 2015/1989 (W. 299). These Regulations were amended by S.I. 2017/491 (W. 103).

mae i "rhiant" ("*parent*"), mewn perthynas â phlentyn sy'n rhan o deulu sy'n cael cymorth gan dîm integredig cymorth i deuluoedd, yr ystyr a roddir yn rheoliad 18(5) o'r Rheoliadau Partneriaeth;

mae i "teulu" ("*family*"), mewn perthynas â pherson sy'n rhan o deulu sy'n cael cymorth gan dîm integredig cymorth i deuluoedd, yr ystyr a roddir yn rheoliad 18(3) o'r Rheoliadau Partneriaeth;

ystyr "tîm integredig cymorth i deuluoedd" ("*IFS team*") yw tîm integredig cymorth i deuluoedd sydd wedi ei sefydlu gan gorff partneriaeth yn unol â'r Rheoliadau Partneriaeth(**1**);".

(3) Yn rheoliad 4 (adolygu cynlluniau)—

(a) ar ôl paragraff (1) mewnosoder y canlynol—

"(1A) Rhaid i'r awdurdod lleol adolygu cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth os yw'r person y mae'r cynllun yn ymwneud ag ef yn rhan o deulu y mae ei achos wedi ei atgyfeirio at dîm integredig cymorth i deuluoedd a bod y teulu wedi ei hysbysu y bydd ei achos yn cael ei gefnogi gan y tîm hwnnw.".

(b) ar ôl paragraff (2) mewnosoder y canlynol—

"(3) Mae'r ystyriaethau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw iddynt wrth adolygu cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth person pan fo'r person yn rhan o deulu sy'n cael ei gefnogi gan dîm integredig cymorth i deuluoedd wedi eu nodi yn yr Atodlen.".

(4) Ar ddiwedd y Rheoliadau mewnosoder yr Atodlen a nodir yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn.

**Diwygio Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

(a) yn y lle priodol mewnosoder—

"IFS team" ("*tîm integredig cymorth i deuluoedd*") means an integrated family support team established by a partnership body in accordance with the Partnership Regulations(**1**);

"parent" ("*rhiant*"), in relation to a child who is part of a family which is receiving support from an IFS team, has the meaning given in regulation 18(5) of the Partnership Regulations;

"partnership body" ("*corff partneriaeth*") has the meaning given in regulation 1(4) of the Partnership Regulations;".

(3) In regulation 4 (review of plans)—

(a) after paragraph (1) insert the following—

"(1A) The local authority must review a care and support plan or a support plan if the person to whom the plan relates is part of a family whose case has been referred to an IFS team and the family has been notified that their case will be supported by that team.".

(b) after paragraph (2) insert the following—

"(3) The considerations to which the local authority must have regard when reviewing a person's care and support plan or support plan where the person is part of a family which is being supported by an IFS team are set out in the Schedule.".

(4) At the end of the Regulations insert the Schedule set out in Schedule 3 to these Regulations.

**Amendment of the Care Planning, Placement and Case Review (Wales) Regulations 2015**

**4.**—(1) The Care Planning, Placement and Case Review (Wales) Regulations 2015(**2**) are amended as follows.

(2) In regulation 2(1) (interpretation)—

(a) in the appropriate place insert—

(**1**) *Gweler* rheoliad 16 o'r Rheoliadau Partneriaeth (sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd). Mae adrannau 166 i 169 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau partneriaeth rhwng pob bwrdd iechyd lleol a'r awdurdodau lleol o fewn ardal pob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru i sefydlu corff partneriaeth i gymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol penodedig mewn partneriaeth.

(**2**) O.S. 2015/1818 (Cy. 261).

(**1**) *See* regulation 16 of the Partnership Regulations (establishment of integrated family support teams). Sections 166 to 169 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (anaw 4) make provision for partnership arrangements between each local health board and the local authorities within the area of each local health board in Wales to establish a partnership body to participate in arrangements for the carrying out of specified health and social services functions in partnership.

(**2**) S.I. 2015/1818 (W. 261).

"mae i "corff partneriaeth" ("*partnership body*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 1(4) o'r Rheoliadau Partneriaeth;

ystyr "y Rheoliadau Partneriaeth" ("*the Partnership Regulations*") yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015(**1**);"; a

(b) yn lle'r diffiniad o "tîm integredig cymorth i deuluoedd" rhodder y canlynol—

"ystyr "tîm integredig cymorth i deuluoedd" ("*IFS team*") yw tîm integredig cymorth i deuluoedd sydd wedi ei sefydlu gan gorff partneriaeth yn unol â'r Rheoliadau Partneriaeth(**2**);".

(3) Yn rheoliad 41 (ystyriaethau y mae'n rhaid i'r awdurdod cyfrifol roi sylw iddynt)—

(a) ym mharagraff (1) yn lle "mharagraff 1" rhodder "mharagraffau 1 i 17",

(b) ym mharagraff (2) yn lle "mharagraff 2" rhodder "mharagraffau 18 i 26",

(c) ar ôl paragraff (2) mewnosoder y paragraff a ganlyn—

"(3) Ym mharagraff (2) ac yn Atodlen 8—

mae i "teulu" ("*family*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 18(3) o'r Rheoliadau Partneriaeth(**3**).".

(4) Yn rheoliad 57 (addasiadau i Ran 2), ym mharagraff (4)(b) yn lle "rheoliad (5)" rhodder "rheoliad 7(5)".

(5) Yn Atodlen 8 (ystyriaethau y mae'n rhaid i'r awdurdod cyfrifol roi sylw iddynt wrth adolygu achos C), ar ôl paragraff 17 mewnosoder y canlynol—

"**18.** Manylion am unrhyw gynllun gofal neu gynllun triniaeth iechyd ar gyfer P.

**19.** Manylion am unrhyw gymorth neu wasanaethau a ddarperir ar gyfer P gan unrhyw berson.

(**1**) O.S. 2015/1989 (Cy. 299). Diwygiwyd y Rheoliadau hyn gan O.S. 2017/491 (Cy. 103).

(**2**) *Gweler* rheoliad 16 o'r Rheoliadau Partneriaeth (sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd). Mae adrannau 166 i 169 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau partneriaeth rhwng pob bwrdd iechyd lleol a'r awdurdodau lleol o fewn ardal pob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru i sefydlu corff partneriaeth i gymryd rhan mewn trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol penodedig mewn partneriaeth.

(**3**) *Gweler* adran 197(1) i gael y diffiniad o "teulu" at ddibenion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4), sy'n gymwys mewn perthynas â chyfeiriadau eraill at "teulu" yn Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015.

""the Partnership Regulations" ("*y Rheoliadau Partneriaeth*") means the Partnership Arrangements (Wales) Regulations 2015(**1**);

"partnership body" ("*corff partneriaeth*") has the meaning given in regulation 1(4) of the Partnership Regulations;"; and

(b) for the definition of "IFS team" substitute the following—

""IFS team" ("*tîm integredig cymorth i deuluoedd*") means an integrated family support team established by a partnership body in accordance with the Partnership Regulations(**2**);".

(3) In regulation 41 (considerations to which the responsible authority must have regard)—

(a) in paragraph (1) for "paragraph 1" substitute "paragraphs 1 to 17",

(b) in paragraph (2) for "paragraph 2" substitute "paragraphs 18 to 26"**,**

(c) after paragraph (2) insert the following paragraph—

"(3) In paragraph (2) and in Schedule 8—

"family" ("*teulu*") has the meaning given in regulation 18(3) of the Partnership Regulations(**3**).".

(4) In regulation 57 (modifications to Part 2), in paragraph (4)(b) for "regulation (5)" substitute "regulation 7(5)".

(5) In Schedule 8 (considerations to which the responsible authority must have regard when reviewing C's case), after paragraph 17 insert the following—

"**18.** Details of any care plan or health treatment plan for P.

**19.** Details of any support or services provided for P by any person.

(**1**) S.I. 2015/1989 (W. 299). These Regulations were amended by S.I. 2017/491 (W. 103).

(**2**) *See* regulation 16 of the Partnership Regulations (establishment of integrated family support teams). Sections 166 to 169 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (anaw 4) make provision for partnership arrangements between each local health board and the local authorities within the area of each local health board in Wales to establish a partnership body to participate in arrangements for the carrying out of specified health and social services functions in partnership.

(**3**) *See* section 197(1) for the definition of "family" for the purposes of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (anaw 4), which applies in relation to other references to "family" in the Care Planning, Placement and Case Review (Wales) Regulations 2015.

**20.** Unrhyw newidiadau yng ngallu P i ofalu am blant, ac yn enwedig mewn perthynas ag C, o ganlyniad i'r gwasanaethau gofal iechyd neu ofal cymdeithasol a ddarperir gan unrhyw berson, neu o ganlyniad i unrhyw ffactorau eraill.

**21.** Unrhyw newidiadau yn amgylchiadau'r teulu ers yr adolygiad diwethaf.

**22.** Unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol y tu allan i'r teulu sy'n berthnasol.

**23.** Unrhyw anawsterau y gall y teulu fod wedi eu cael wrth ymwneud â'r tîm integredig cymorth i deuluoedd.

**24.** A oes unrhyw wrthdaro rhwng anghenion C ac anghenion P, neu anghenion unrhyw aelod arall o aelwyd P, a sut y gellir datrys hyn.

**25.** Yr angen i baratoi i ddod â rhan y tîm integredig cymorth i deuluoedd i ben.

**26.** Ym mharagraffau 18 i 25—

Mae "P" i gael ei ddehongli fel pe bai'n gyfeiriad at "rhiant" o fewn yr ystyr a roddir yn rheoliad 18(5) o'r Rheoliadau Partneriaeth.".

**20.** Any changes in P's capacity to care for children, and in particular in relation to C, as a result of the health or social care services provided by any person, or as a result of any other factors.

**21.** Any changes in the family circumstances since the last review.

**22.** Any significant events outside the family which are relevant.

**23.** Any difficulties which the family may have had in engaging with the IFS team.

**24.** Whether there is any conflict between the needs of C and the needs of P, or any other member of P's household, and how this can be resolved.

**25.** The need to prepare for the ending of the involvement of the IFS team.

**26.** In paragraphs 18 to 25—

"P" is to be construed as though it were a reference to "parent" within the meaning given in regulation 18(5) of the Partnership Regulations.".

*Rebecca Evans*

Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru

26 Mehefin 2017

Minister for Social Services and Public Health, under authority of the Cabinet Secretary for Health, Well-being and Sport, one of the Welsh Ministers

26 June 2017

## ATODLEN 1 Y Rhaglith

## Darpariaethau sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru a arferir wrth wneud y Rheoliadau hyn

| *Y deddfiad sy'n rhoi pŵer* | |
|---|---|
| Deddf Plant 1989[1] | Adrannau 59(4)[2], 104(4)[3] ac Atodlen 6[4], paragraff 10(1) |
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[5] | Adrannau 54(5) a (6), 83(5) a 196(2) |

[1] 1989 p. 41 ("Deddf 1989"). *Gweler* adran 105(1) o Ddeddf 1989 i gael y diffiniad o "prescribed".

[2] Mynegir bod y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 59 o Ddeddf 1989 i gael ei arfer gan yr "appropriate national authority", a'i ystyr, fel y'i diffinnir yn adran 59(7) o Ddeddf 1989 (sydd wedi ei mewnosod gan adran 39 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23) ("Deddf 2008") ac Atodlen 3, paragraff 23(6) iddi), o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru. Diwygiwyd yr adran hon hefyd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p. 14), Atodlen 4, paragraff 14(1) ac (8), a chan Ddeddf Plant 2004 (p. 31), adran 49(4). Mae diwygiadau eraill i'r adran hon nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

[3] Diwygiwyd adran 104 o Ddeddf 1989 gan Ddeddf Plant a Mabwysiadu 2006 (p. 20), Atodlen 2, paragraff 10(a) a chan Ddeddf 2008, Atodlen 3, paragraff 25. Gwnaed diwygiadau eraill i'r adran hon nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

[4] Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraff 10(1) o Atodlen 6 i Ddeddf 1989 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y ddarpariaeth hon wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Diwygiwyd Atodlen 6 i Ddeddf 1989 yn ôl eu trefn gan adrannau 116 a 117(2) o Ddeddf Safonau Gofal 2000, a pharagraff 14(1) a (25) o Atodlen 4 ac Atodlen 6 iddi. Mae diwygiadau eraill i'r ddarpariaeth hon nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

[5] *Gweler* adran 197(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) ("Deddf 2014") i gael y diffiniad o "penodedig", "a bennir" ac "a bennwyd" a "rheoliadau".

## SCHEDULE 1 Preamble

## Provisions conferring power on the Welsh Ministers which are exercised in the making of these Regulations

| *Enactment conferring power* | |
|---|---|
| The Children Act 1989[1] | Sections 59(4)[2], 104(4)[3] and Schedule 6[4], paragraph 10(1) |
| The Social Services and Well-being (Wales) Act 2014[5] | Sections 54(5) and (6), 83(5) and 196(2) |

[1] 1989 c. 41 ("the 1989 Act"). *See* section 105(1) of the 1989 Act for the definition of "prescribed".

[2] The power to make regulations under section 59 of the 1989 Act are expressed to be exercised by the "appropriate national authority", defined in section 59(7) of the 1989 Act (which is inserted by section 39 of and Schedule 3, paragraph 23(6) to the Children and Young Persons Act 2008 (c. 23) ("the 2008 Act")) as meaning, in relation to Wales, the Welsh Ministers. This section was also amended by the Care Standards Act 2000 (c. 14), Schedule 4, paragraph 14(1) and (8), and by the Children Act 2004 (c. 31), section 49(4). There are other amendments to this section which are not relevant to these Regulations.

[3] Section 104 of the 1989 Act was amended by the Children and Adoption Act 2006 (c. 20), Schedule 2, paragraph 10(a) and by the 2008 Act, Schedule 3, paragraph 25. There have been other amendments to this section which are not relevant to these Regulations.

[4] The functions of the Secretary of State under paragraph 10(1) of Schedule 6 to the 1989 Act were transferred to the National Assembly of Wales by The National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). The functions of the National Assembly for Wales under this provision have been transferred to the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32). Schedule 6 to the 1989 Act was amended respectively by sections 116 and 117(2) of and paragraph 14(1) and (25) of Schedule 4 and Schedule 6 to the Care Standards Act 2000. There are other amendments to this provision which are not relevant to these Regulations.

[5] *See* section 197(1) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (anaw 4) ("the 2014 Act") for the definition of "specified" and "regulations".

## ATODLEN 2 Rheoliad 2

## “ATODLEN 5 Rheoliad 6

### Ystyriaethau ychwanegol y mae’n rhaid i awdurdodau cyfrifol roi sylw iddynt pan fo rhan gan dîm integredig cymorth i deuluoedd

**1.** Manylion o unrhyw gynllun gofal neu gynllun triniaeth iechyd ar gyfer rhiant.

**2.** Manylion o unrhyw gymorth neu wasanaethau a ddarperir i riant gan unrhyw berson.

**3.** Unrhyw newidiadau yng ngallu rhiant i rianta o ganlyniad i’r gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol a ddarperir, neu o ganlyniad i unrhyw ffactorau eraill.

**4.** Unrhyw newidiadau yn amgylchiadau’r teulu ers yr adolygiad diwethaf.

**5.** Unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol y tu allan i’r teulu sy’n berthnasol.

**6.** Unrhyw anawsterau y gall y teulu fod wedi eu cael wrth ymwneud â’r tîm integredig cymorth i deuluoedd.

**7.** A oes unrhyw wrthdaro rhwng anghenion y plentyn ac anghenion rhiant, neu anghenion unrhyw aelod arall o’r teulu, a sut y gellir datrys hyn.

**8.** Yr angen i baratoi i ddod â rhan y tîm integredig cymorth i deuluoedd i ben. ”.

## SCHEDULE 2 Regulation 2

## “SCHEDULE 5 Regulation 6

### Additional considerations to which responsible authorities must have regard where an IFS team is involved

**1.** Details of any care plan or health treatment plan of a parent.

**2.** Details of any support or services provided to a parent by any person.

**3.** Any changes to the parenting capacity of a parent as a result of the health or social care services provided, or as a result of any other factors.

**4.** Any changes in the family circumstances since the last review.

**5.** Any significant events outside the family which are relevant.

**6.** Any difficulties which the family may have had in engaging with the IFS team.

**7.** Whether there is any conflict between the needs of the child and the needs of a parent, or any other family member and how this can be resolved.

**8.** The need to prepare for the ending of the involvement of the IFS team. ”.

## ATODLEN 3 Rheoliad 3

## “YR ATODLEN Rheoliad 4

### Ystyriaethau y mae’n rhaid i awdurdod lleol roi sylw iddynt wrth adolygu cynllun pan fo rhan gan dîm integredig cymorth i deuluoedd

**1.** Manylion unrhyw gynllun gofal neu gynllun triniaeth iechyd ar gyfer rhiant.

**2.** Manylion unrhyw gymorth neu wasanaethau a ddarperir i riant gan unrhyw berson.

## SCHEDULE 3 Regulation 3

## “SCHEDULE Regulation 4

### Considerations to which a local authority must have regard when reviewing a plan where an IFS team is involved

**1.** Details of any care plan or health treatment plan of a parent.

**2.** Details of any support or services provided to a parent by any person.

**3.** Unrhyw newidiadau yng ngallu rhiant i rianta o ganlyniad i'r gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol a ddarperir, neu o ganlyniad i unrhyw ffactorau eraill.

**4.** Unrhyw newidiadau yn amgylchiadau'r teulu ers yr adolygiad diwethaf.

**5.** Unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol y tu allan i'r teulu sy'n berthnasol.

**6.** Unrhyw anawsterau y gall y teulu fod wedi eu cael wrth ymwneud â'r tîm integredig cymorth i deuluoedd.

**7.** A oes unrhyw wrthdaro rhwng anghenion y plentyn ac anghenion rhiant, neu anghenion unrhyw aelod arall o'r teulu, a sut y gellir datrys hyn.

**8.** Yr angen i baratoi i ddod â rhan y tîm integredig cymorth i deuluoedd i ben.".

**3.** Any changes to the parenting capacity of a parent as a result of the health or social care services provided, or as a result of any other factors.

**4.** Any changes in the family circumstances since the last review.

**5.** Any significant events outside the family which are relevant.

**6.** Any difficulties which the family may have had in engaging with the IFS team.

**7.** Whether there is any conflict between the needs of the child and the needs of a parent, or any other family member and how this can be resolved.

**8.** The need to prepare for the ending of the involvement of the IFS team.".

©℗Hawlfraint y Goron 2017

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2017

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

**2017 Rhif 713 (Cy. 170)**

**2017 No. 713 (W. 170)**

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

# SOCIAL CARE, WALES

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

# CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

Rheoliadau Cynllunio Gofal ac Adolygu Achosion (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2017

The Care Planning and Case Review (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2017

£6.00

W201706295 07/2017

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2017/713

ISBN 978-0-348-20129-1

9 780348 201291